CANGHENNAU'N DATHLU'R RHUDDEM

Cangen y Bryniau, Ceredigion

Sefydlwyd cangen y Bryniau – yr ail yn Rhanbarth Ceredigion – gan June Morgan a Margaret Roberts ym 1968. Dyma lun o bedair aelod o'r cychwyn cyntaf Anor, Anne, Ray a Nansi yn torri'r gacen i ddathlu'r deugain mlynedd.

Cangen Porthmadog, Dwyfor

Yn ystod yr Hydref mwynhawyd noson arbennig o dan lywyddiaeth Ann Trefor Jones yn 'Dathlu'r Rhuddem'. Pleser oedd cael cwmni y llywydd

Margaret Humphreys (Trysorydd), Nan Parri (y Llywydd cyntaf), Ann Trefor Jones (Llywydd) a Nia Evans (Ysgrifennydd).

cyntaf, Nan Parri, Caernarfon, i hel atgofion difyr. Roedd Ystafell Glaslyn, Canolfan y Celfyddydau, Porthmadog, yn fôr o goch ar gyfer yr amgylchiad. Estynnwyd croeso hefyd i Ann Pierce Jones, Golan, Llywydd Rhanbarth Dwyfor. Cafodd pob aelod eu gwala a'u gweddill o'r wledd ardderchog ac o gacen ben-blwydd arbennig a wnaed gan Gwyneth Mair. Yn glo hyfryd i'r noson mwynhawyd eitemau cerddorol o safon uchel gan Barti Rhyd yr Eirin, Chwilog.

Lluniwyd penillion cyfarch ar gyfer yr achlysur gan Nia Evans, yr Ysgrifennydd, oedd yn gorffen gyda'r cwpled gobeithiol:

"Awn ninnau ymlaen at y degawd nesa'
Dan lewyrch Y WAWR a ffydd ein calonna."

Cangen Llanrhaeadr ym Mochnant, Powys

Yn Rhagfyr 1968 daeth 18 ynghyd i ffurfio cangen yn Llanrhaeadr ym Mochnant. Roedd y ddiweddar Marged Jones (Llanfyllin ar y pryd) yno i'n rhoi ar ben y ffordd. Etholwyd Hilda Jones yn llywydd ac Elin Price yn ysgrifennydd gyda nifer o swyddogion eraill. Erbyn dathlu Gŵyl Ddewi 1969, roedd tua 50 o aelodau, a dal i dyfu oedd yr hanes nes cofnodi tua 70 o aelodau yn yr 1980au cynnar. Bu'n gangen fywiog a gweithgar ar hyd y blynyddoedd.

Yn Rhagfyr 2008, pleser oedd ymgynnull i ddathlu deugain mlynedd o fodolaeth. Croesawodd Mailys Evans ein Llywydd 35 o aelodau, yn eu plith dwy gyn-aelod, y Llywydd Cenedlaethol, Esyllt Jones, Mim Roberts, Trefnydd y Gogledd, ac Elizabeth Morris a Bronwen Jones, Llywydd ac Ysgrifennydd y Rhanbarth, dwy aelod o'n cangen ni. Torrwyd y gacen ddathlu hardd o waith Gwen Thomas gan Menna Edwards, Elizabeth Morris a Mary Thomas, 3 o'r 18 aelod gwreiddiol. Cafwyd hanes sefydlu'r gangen gan Menna Edwards a phenillion gan Dei Edwards a Talog Davies a ddarllenwyd gan Mary Thomas ac Eleri Roberts. Roedd gweddill y noson yng ngofal ein gwesteion, Arfon Gwilym a'i wraig Sioned a chawsom noson hwyliog dros ben.

Y BYD SYDD OHONI!

Beth sy'n mynd lan?

Lliwiau llachar yr enfys: Rhowch y du, y llwyd a'r brown gadw – mae'n wanwyn ac yn amser codi calon!

Jîns denim *flares*: Adlais o'r wythdegau ond yn hawdd iawn i'w gwisgo ac yn edrych yn ddel ar bawb.

Dathlu Sul y Mamau mewn steil: `Dyn ni, o bawb, yn gwybod fod hynny'n gwneud synnwyr!

Tecstio ac e-bostio: Dewch bawb, mae'n hawdd ac MOR hwylus.

Gwyliau ar Eurostar: Slic a smart, glân a da i'r amgylchedd; gwell na hedfan unrhyw ddydd.

***Dreams from My Father*:** Darllenwch a deallwch hanes arlywydd newydd America

Ac i lawr?

Bwyta wyau Pasg: Ydych chi'n credu fod siocled yn dda i chi? Ac mae'r demtasiwn yn y siopau ers Ionawr 1af!

Anfon e-gardiau: Diogi neu ddifaterwch?

Rhicyn o wallt heb ei liwio: Efallai fod arian yn brin OND mae e mor hyll.

Sgerti pensil: Soffistigedig a rhywiol iawn ond mae'r straen yn ormod.

Siopa, siopa, siopa: Ydy, mae'r economi yn erfyn arnon ni, ond gan bwyll gyda'r gwario, gwario, gwario.

CLECS O'R CLYBIAU

Clwb Gwawr Bwrlwm Banwy

Diwedd mis Tachwedd 2008 lansiwyd Clwb Gwawr newydd yn nhafarn y Cann Offis, Llangadfan, Trefaldwyn. Daeth nifer ynghyd i'r noson agoriadol a chafwyd gwin ac amrywiaeth o wahanol gawsiau gan berchennog y dafarn, Emyr Jones. Diolch yn fawr iddo am ei garedigrwydd! Etholwyd Nia Chapman yn gysylltydd Clwb Gwawr Bwrlwm Banwy a Llinos Jones yn drysorydd. Croeso i aelodau newydd.

Y Clwb mwyaf bywiog yng Nghymru?

Mae aelodau Clwb Gwawr Llanymddyfri wedi dechrau'r flwyddyn newydd gyda'u hegni arferol – Noson o Ddawnsio Bola yng nghwmni Joy Holmes a Vanessa Nitch. Oes unrhyw glwb am herio'r teitl uchod?

Noson 'Sglefrio a Sglaffio'!

Rhai o aelodau Clwb Gwawr mwyaf newydd y de, sef Caerdydd, yn mwynhau sglefrio ar yr iâ yng nghanol y brifddinas cyn y Nadolig. Llosgi calorïau er mwyn mwynhau'r bwyta a'r yfed a oedd i ddilyn, ynte, ferched?!

Clybiau'n troi'n arlunwyr

Mae'r clybiau yn dal i ymarfer eu hochr artistig - roedd Clybiau Gwawr Ogwr o ardal Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl a Merched Hywel o ardal Hen Dŷ Gwyn ar Daf wedi mwynhau nosweithiau o baentio crochenwaith (a bwyd wrth gwrs!) yn eu hardaloedd.

Clwb y Gwyniaid, y Bala

Ar yr 22ain o Dachwedd, fe aeth dros 30 o aelodau Clwb Gwawr y Gwyniaid ar drip siopa Nadolig gan aros noson yng Nghaer. Wedi cyrraedd Gwesty'r Queens yng Nghaer fore Sadwrn cychwynnodd pawb ar y siopa, roedd hi'n hwylus iawn gan fod bysys yn mynd yn ôl a blaen i'r ddinas bob deng munud. Fin nos cafodd pawb y cyfle i fwynhau pryd o fwyd cyn mynd allan i ddawnsio yn y clybiau.

Bev Jones, Shan Jones, Diane Jones a Gwennan Jones yn mwynhau yng Nghaer.

Cafwyd penwythnos o chwerthin a hwyl yn ogystal â chychwyn ar y siopa Nadolig. Mae'r holl aelodau yn edrych ymlaen ar gyfer ein trip y flwyddyn nesaf yn barod. Cafodd y trip ei drefnu'n llwyddiannus gan y ddwy Helen, Helen Mair a Helen Rees a chafwyd amser bendigedig. Roedd pawb yn llwythog iawn yn dychwelyd adre i'r Bala pnawn Sul.

Noson 'Bags, bwyd a bŵz'

Cafwyd noson ddiddorol a lliwgar gan Glwb Gwawr y Gwendraeth yn nhafarn y Sgwâr, Pontiets, yn ddiweddar pan ddaeth 'Huw Ffash' i sôn am ei yrfa ac i arddangos bagiau o bob lliw a llun. Cafwyd bwffe blasus (ac ambell ddiodyn bach) i ddilyn. Dyma drefnydd y noson, Pat Tillman, gyda Huw a rhai o'i *handbags*.

Am fanylion cyswllt a rhaglenni'r clybiau, ewch ar ein gwefan: www.clybiaugwawr.com